Association of Independent Museums

The AIM Hallmarks of Prospering Museums

Canllawiau AIM i Fyrddau

Cyflwyniad i amgueddfeydd i ymddiriedolwyr newydd

Awdur: Tamalie Newbery

Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn wedi'i fwriadu ar gyfer ymddiriedolwyr newydd amgueddfeydd a sefydliadau treftadaeth nad ydynt yn gyfarwydd ag amgueddfeydd a'r sector treftadaeth.

Mae llawer o ganllawiau ar gyfer bod yn ymddiriedolwr elusen ac mae rhai adnoddau allweddol wedi eu rhestru ar ddiwedd y ddogfen briffio hon. Mae'r canllaw hwn yn cynnig cyflwyniad i'r sector amgueddfeydd a threftadaeth, ac yn amlygu cyfarfodydd sydd yn benodol i ymddiriedolwyr amgueddfeydd.

Y Sector Amgueddfeydd

Mae dros 2,000 o amgueddfeydd, orielau celf, canolfannau gwyddoniaeth a sefydliadau treftadaeth yn y DU. Yn 2016, roedd atyniadau gwyddoniaeth a threftadaeth yn y DU yn croesawu mwy na 100 miliwn o ymwelwyr. (Mae'r canllaw hwn yn defnyddio'r term 'amgueddfa' i gynnwys pob atyniad diwylliannol, treftadaeth a gwyddoniaeth, orielau celf, catrefi hanesyddol ac ati).

Dros y 30 blynedd ddiwethaf, mae newid mawr yn y ffordd y mae amgueddfeydd yn gweithio wedi digwydd, ac mae'r mwayfrif ohonynt erbyn hyn yn lefydd sydd â ffocws ar ymwelwyr, yn rhyngweithiol ac yn gyfranogol. Maent wedi gorfod addasu er mwyn cystadlu ag atyniadau eraill, gweithgareddau ysgol, ac amrywiaeth o ofynion ar amser hamdden ac arian y cyhoedd. Mae'r angen hwn wedi arwain at fwy o gydnerthedd mewn gweithrediadau, cynllunio busnes a llywodraethu i lawer.

Ar hyn o bryd mae tua 20,000 o bobl mewn cyflogaeth am dâl yn sector amgueddfeydd y DU. Mae cyflogau a thâl mewn amgueddfeydd yn gyffredinol is na'r cyffredin. Mae cyfran fawr o'r bobl sydd yn gweithio mewn amgueddfeydd yn wirfoddolwyr. Yn gyffredinol mae gan y gweithlu lefelau uchel o gyrhaeddiad addysgol. Mae'n llai amrywiol na'r boblogaeth gyffredinol oherwydd mae pobl o gefndiroedd du a lleifrifoedd ethnig heb gynrychiolaeth ddigonol, sydd hefyd yn wir i bobl anabl a phobl o gefndiroedd llai cyfoethog. Mae hyn yn fater y mae amgueddfeydd fel grŵp yn frwd i fynd i'r afael ag ef.

Yn ogystal â'u rôl mewn diogelu treftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, caiff amgueddfeydd eu cydnabod am eu rolau addysgol a datblygu sgiliau, am helpu i greu synnwyr o le a hunaniaeth, am eu cyfraniad i dwristiaeth ac i economïau lleol ac yn gynyddol am eu gwaith mewn cefnogi lles.

O'r 2000 o amgueddfeydd yn y DU, mae rhyw 1600 ohonynt yn Achrededig, sydd yn golygu eu bod wedi eu cydnabod am gwrdd â safonau sylfaenol o ran gofalu am gasgliadau a rhoi mynediad iddynt. Mae achrediad yn nodwedd bwysig ac arbennig o sector amgueddfeydd y DU ac mae hyn wedi cael ei efelychu mewn llawer o lefydd o gwmpas y byd. Mewn rhai achosion mae mynediad i gyllid a chymorth yn dibynnu ar fod yn Achrededig neu eich bod yn gweithio tuag at Achrediad yn swyddogol.

Amgueddfeydd Annibynnol

Gall amgueddfeydd gael eu llywodraethu mewn nifer o wahanol ffyrdd. Mae amgueddfeydd 'annibynnol' fel arfer yn elusennau ac mae'r rhain yn cyfri am ryw ddau draean o'r amgueddfeydd i gyd. Maent yn annibynnol o lywodraeth leol neu ganolog yn nhermau eu llywodraethu, ond mae gan ryw draean ohonynt berthynasau pwysig gydag awdurdodau lleol, sydd yn aml yn cynnwys rhywfaint o gyllido.

Sefydlwyd Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol (AIM) ym 1977 gan bobl a oedd yn rheoli amgueddfeydd annibynnol, er mwyn creu rhwydwaith i rannu profiadau a'u cynrychioli i wneuthurwyr polisi a chyllidwyr. Heddiw, mae ganddi 1200 o aelodau ar hyd a lled y DU. Mae amgueddfeydd annibynnol yn amrywio'n fawr o ran maint, casgliadau a'u tarddiad, ond maent yn aml yn rhannu'r nodweddion o hunan-ddibyniaeth, angerdd a dull gweithredu entrepreneuraidd i rannu treftadaeth gyda'r cyhoedd a sicrhau'r adnoddau sydd angen arnynt er mwyn gwneud hyn.

Mae tua traean o'r amgueddfeydd sydd yn aelodau o AIM heb unrhyw staff cyflogedig o gwbl, ond maent yn amrywio i rai sydd â throsiant o dros £5m. Mae gwrifoddoli yn bwysig iawn i amgueddfeydd annibynnol, gydag ymchwil wedi'i chomisiynu gan AIM yn awgrymu bod dros 100,000 o bobl yn gwirfoddoli mewn amgueddfeydd annibynnol.

Mae rheoli amgueddfa annibynnol sydd yn ffynnu yn gofyn am amrywiaeth eang o sgiliau. Rhaid i staff a gwirfoddolwyr groesawu pobl yn effeithiol, yn bersonol ac arlein, a darparu gwasanaeth cwsmeriaid gwych. Maent yn dadansoddi casgliadau i'r cyhoedd, gan gyflwyno eu straeon mewn ffyrdd clyfar, doniol ac arloesol. Maent yn marchnata eu hamgueddfa ac yn cysylltu gyda chymunedau.

Maent yn darparu gwasanaethau addysg ac allgymorth i ysgolion, teuluoedd ac oedolion. Maent yn cynhyrchu incwm i gefnogi eu pwrpas craidd trwy fasnachu yn effeithiol yn eu siopau, tai bwyta ac arlein, trwy logi lleoliadau a thrwyddedu ac mewn llawer o ffyrdd eraill. Maent yn denu cyllid allanol trwy grantiau a rhaglenni codi arian, ac yn cael eu cefnogi gan ryddhad treth llywodraethol fel Gift Aid ar docynnau mynediad a Rhyddhad Treth Amgueddfeydd ac Orielau.

Mae tua hanner o amgueddfeydd yn codi tâl am fynediad a hanner ohonynt yn ddi-dâl. Yn y sector amgueddfeydd annibynnol mae'r ddau fodel yn gweithio'n llwyddiannus, gyda thua dau draean o amgueddfeydd annibynnol yn codi tâl.

Cymorth a chyllid i amgueddfeydd

Mae sefydliadau yn cynnig hyfforddiant, cyngor a / neu fynediad i rannau gwahanol o'r DU. Yn Lloegr, mae Cyngor Celfyddydau Lloegr yn cefnogi amgueddfeydd â chyllido yn uniongyrchol a thrwy dîmau Datblygu Amgueddfeydd rhanbarthol, sydd yn cynnig cymorth, hyfforddiant a ffrydau cyllido llai.

Mae cymorth tebyg yn cael ei gynnig gan Is-Adran Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd (MALD) Llywodraeth Cymru, Amgueddfeydd ac Orielau yr Alban a Chyngor Amgueddfeydd Gogledd Iwerddon. Mae llawer o'r cymorth hwn yn arbennig o berthnasol i amgueddfeydd bach a chymhedrol ac mae rhagor o wybodaeth ar gael ar: **museumdevelopmentnetwork.org/**

Y Gronfa Loteri Treftadaeth yw prif ddosbarthwr y Loteri sydd yn cefnogi amgueddfeydd, ac mae llawer o ymddiriedolaethau a sefydliadau eraill sydd yn cynnig cyllido hefyd.

Mae sefydliadau DU-eang hefyd sydd yn gallu cynnig cymorth i amgueddfeydd mewn agweddau penodol o'u casgliadau neu eu gwaith ac mae dolenni ar gael ar wefan AIM.

Rheoli amgueddfa lwyddiannus

Mae ymddiriedolwyr yn gyfrifol am osod fframwaith a chyfeiriad strategol sydd yn galluogi i amgueddfeydd gyflenwi manteision i'r cyhoedd, cyflawni eu nodau a ffynnu. Mae Hallmarks AIM o Amgueddfeydd sydd yn Ffynnu yn amlygu'r agweddau allweddol sydd angen i amgueddfeydd eu datblygu er mwyn bod yn llwyddiannus, ac mae'r cyhoeddiad cysylltiedig, Paratoi i Ffynnu, yn amlygu rhai o'r agweddau y dylid eu hystyried a'u datblygu yn weithredol gan ymddiriedolwyr a phobl eraill sydd yn arwain amgueddfeydd. I lawrlwytho'r cyhoeddiadau hyn gweler **www.aim-museums.co.uk/aim-hallmarks/**

Cod Moeseg a Chasgliadau Amgueddfeydd

Mae cyfrifoldeb gan bob ymddiriedolwr i ymddwyn yn foesol ac mae'r Cod Llywodraethu Elusennol yn amlinellu beth y mae hyn yn ei olygu (gweler Adnoddau Ychwanegol isod). Ond mae ystyriaethau moesol penodol ar gyfer ymddiriedolwyr amgueddfeydd, yn ymwneud â'r ffordd y caiff casgliadau amgueddfa eu trîn, gan gynnwys sut y maent yn cael eu casglu, eu defnyddio, eu diogelu a sut mae cael gwared â nhw. Mae'n bosib cael gwared â phethau o gasgliadau, ond dim ond o fewn fframwaith sydd yn blaenoriaethu manteision i'r cyhoedd yn hytrach na chymhelliant ariannol. Rhaid i ymddiriedolwyr fod yn arbennig o ymwybodol o ystyriaethau moesol yma.

Mae'r Cod Moeseg ar gyfer y sector amgueddfeydd yn amlygu'r egwyddorion allweddol sydd angen i amgueddfeydd a'r bobl sy'n gweithio ynddynt gytuno i'w cynnal. **www.museumsassociation.org/ethics/code-of-ethics**

Ymgysylltiad cyhoeddus a manteision i'r cyhoedd

- ymgysylltu'n weithredol a gweithio mewn partneriaeth â chynulleidfaoedd sydd yn bodoli eisoes as estyn allan i gynulleidfaoedd newydd ac amrywiol
- trin pawb yn gyfartal, gyda gonestrwydd a pharch
- darparu a chynhyrchu gwybodaeth gywir ar gyfer a gyda'r cyhoedd
- cefnogi rhyddid i lefaru a thrafodaeth
- defnyddio casgliadau at fantais y cyhoedd – ar gyfer dysgu, ysbrydolaeth a mwynhad

Stiwardiaeth Casgliadau

- cynnal a datblygu casgliadau ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol
- casglu, gofalu am, arddangos a benthyg casgliadau â thryloywder a chymhwysedd er mwyn cynhyrchu gwybodaeth ac ymgysylltu'r cyhoedd gyda chasgliadau
- trîn casgliadau amgueddfa fel asedau diwylliannol, gwyddonol neu hanesyddol, yn hytrach na fel asedau ariannol

Uniondeb Sefydliadol ac Unigol

- ymddwyn yn niddordeb y cyhoedd ymhob agwedd o'r gwaith
- cynnal y lefel uchaf o uniondeb sefydliadol ac ymddygiad personol bob amser
- adeiladu perthynasau parchus a thryloyw gyda sefydliadau partner, cyrff llywodraeth, staff a gwirfoddolwyr er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn ymddiried mewn gweithgareddau'r amgueddfa

Adnoddau ychwanegol

Mae gan wefan AIM adran o wybodaeth ar gyfer amgueddfeydd ac ymddiriedolwyr treftadaeth, yn cynnwys Rheolau Aur AIM ar gyfer Llywodraethu Da a'r canllaw i Lywodraethu Llwyddiannus mewn Amgueddfa Annibynnol. Mae'r canllaw hwnnw hefyd yn cynnwys awgrymiadau mwy manwl ar gyfer rhagor o ddarllen.

Cewch hefyd gofrestru i dderbyn cylchlythyr rheolaidd AIM, sydd yn arbennig ar gyfer ymddiriedolwyr treftadaeth. Gweler **www.aim-museums.co.uk/for-trustees/**

Datblygwyd y Cod Llywodraethu Elusennau ar y cyd gan y sefydliadau i gyd sydd yn cynrychioli elusennau yn y DU, a dyma'r pwynt cychwyn gorau er mwyn deall cyfrifoldebau cyffredinol ymddiriedolwyr elusennau: **www.charitygovernancecode.org/en**

Am yr awdur:

Mae Tamalie Newbury wedi gweithio yn y sector amgueddfeydd am ugain mlynedd. Yn y gorffennol mae hi wedi bod yn Gadeirydd, yn Is-Gadeirydd neu yn Ymddiriedolwr nifer o sefydliadau. Fel ymgynghorydd, gweithiodd gydag ymddiriedolwyr o sefydliadau mawr a bach. O 2013 i 2017 roedd hi'n Gyfarwyddwr Gweithredol o AIM ac mae hi yn awr yn CEO o aelod AIM, Amgueddfa Brooklands.

Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol (AIM)
3 Chestnut Grove, Ludlow
Shropshire, SY8 1TJ
www.aim-museums.co.uk

Hawlfraint © 2018 Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol a Tamalie Newbury